# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-12-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 4 Ebrill 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgor

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Eleanor Burnham, Janice Gregory

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-11-2006

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2006, yn amodol ar rai newidiadau: newid paragraff 6.27 i "roedd rhai pryderon gan yr Aelodau ynghylch y Mesur, a gofynnwyd am y posibilrwydd o wahodd rhywun o San Steffan i egluro sut y bydd yn gweithredu a goblygiadau'r ddeddfwriaeth"; a newid paragraff 6.28 i "Roedd yr Aelodau hefyd yn teimlo eu bod yn gallu gweld cyfleoedd, er gwaetha'r pryderon."

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Nid oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd felly awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud yn syth i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 O ran y Rheolau Statudol canlynol roedd yr Aelodau'n cytuno y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol

**LC1262 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)(Cymru) 2006**

**LC1268 - Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006**

**LC1269 - Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Wales) Order 2006**

**LC1270 - Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006**

## Eitem 5: Craffu ar Ddeddfwriaeth ar ôl Etholiadau’r Cynulliad yn 2007. Ystyried a fyddai ystyried deddfwriaeth Ewropeaidd yn bosibilrwydd ar ôl 2007. Trafodaeth gydag Anna Daniel, cynrychiolydd y Cynulliad

## Cenedlaethol yn Swyddfa Brwsel.

5.1 Cyflwynodd Miss Daniel ymddiheuriadau i'r Pwyllgor ar ran Sandy Mewies AC, nid oedd hi'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Yna, cyflwynodd Miss Daniel ei hadroddiad i'r Pwyllgor.

Eglurodd Miss Daniel mai Pwyllgorau'r Cynulliad sy'n craffu ar ddeddfwriaeth yr UE ar hyn o bryd, a'i fod yn bwysig craffu ar y ddeddfwriaeth mor fuan â phosibl yn y broses ddeddfwriaethol, cyn bod gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei rhoi ar waith.

5.2 Gofynnodd yr Aelodau pa mor llwyddiannus yw Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran sicrhau dylanwad ar safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion Ewropeaidd.

5.3 Dywedodd Miss Daniel nad yw materion Ewropeaidd wedi eu datganoli, felly, dim ond un safbwynt sydd gan y DU ar y materion hyn - nid oes lle i'r Cynulliad gyfleu safbwynt ar wahân, ond mae'n bwydo sylwadau i lywodraeth y DU ar y materion hyn. Ynghyd â'r ffaith bod trafodaethau rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU yn gyfrinachol, mae'n anodd gwybod faint o ddylanwad sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

5.4 Gofynnodd Aelodau a oedd posibilrwydd i'r Pwyllgor ystyried a yw penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad yn groes i ddeddfwriaeth Ewropeaidd.

5.5 Dywedodd Miss Daniel bod yr egwyddor o sybsidiaredd yn rhoi arweiniad o ran penderfynu a ddylid cymryd camau ar lefel Ewropeaidd neu ar lefel genedlaethol, dywedodd hefyd y gall y Cynulliad fonitro'r egwyddor er mwyn sicrhau na fydd ei bwerau'n cael eu trosglwyddo i Ewrop yn ddiangen. Gellir defnyddio'r egwyddor i sicrhau nad yw'r Undeb Ewropeaidd yn gweithredu y tu hwnt i'w ffiniau ac nad yw penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar bwerau'r Cynulliad neu yn eu cyfyngu. O ran y Cynulliad yn cydymffurfio a'i ymrwymiadau o dan gyfraith yr UE, mae angen canolbwyntio mwy ar y broses o roi deddfwriaeth ar waith.

5.6 Nododd Mr Griffiths bod y Cynulliad ar hyn o bryd yn groes gyfeirio is-ddeddfwriaeth gyda deddfwriaeth yr UE, ond nad yw'n bosibl craffu ar bob darn o ddeddfwriaeth Ewropeaidd er mwyn ceisio sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi pob darn o ddeddfwriaeth a ragnodir gan Ewrop ar waith. Tynnodd Mr Griffiths sylw at y ffaith bod adran 2.2 o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd yn gwneud rheoliadau ar gyfer rhoi deddfwriaeth Ewropeaidd ar waith. Os caiff deddfwriaeth ei wneud o dan y pwer hwnnw, ni fyddai'n bosibl mynd ymhellach na'r hyn a bennwyd gan gyfraith Ewrop, ond o dan y gyfraith ddomestig byddai modd mynd ymhellach. Os felly, rôl y Pwyllgor Deddfau fyddai sicrhau na fyddai'r broses o roi deddfwriaeth Ewropeaidd ar waith yn y DU yn mynd ymhellach na'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd ei hun. Byddai'r ddadl ar fynd y tu hwnt i ofynion y ddeddfwriaeth wreiddiol yn berthnasol yma.

Hefyd, tynnodd Mr Griffiths sylw at achos pasportau ceffylau. Cafodd deddfwriaeth nad oedd cyfle i'r Cynulliad ddylanwadu arni ar waith. Awgrymodd y byddai'n well newid y sefyllfa honno.

5.7 Awgrymodd Mr Griffiths hefyd y gallai'r Pwyllgor ystyried a oedd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau eraill ac/neu a oeddent yn cael eu rhoi ar waith.

5.8 Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i'r Pwyllgor Deddfau ystyried y pwerau a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a pha reoliadau a gyflwynwyd, pan fyddai pwyllgor pwnc yn penderfynu bod maes penodol yn arbennig o bwysig.

5.9 Wrth gyfeirio at fynd y tu hwnt i ofynion y ddeddfwriaeth mewn rheoliadau, gofynnodd yr Aelodau faint o adborth a roddir i Frwsel, ac a yw'r adborth yn cael ei ystyried.

5.10 Dywedodd Miss Daniel bod mynd y tu hwnt i ofynion y ddeddfwriaeth a rheoleiddio gwell yn uchel ar agenda'r Comisiwn Ewropeaidd a bod Llywodraeth y DU wedi rhoi adolygiad ar y mater ar waith i ystyried sut y caiff deddfwriaeth Ewropeaidd ei rhoi ar waith a chanlyniadau mynd y tu hwnt i ofynion y ddeddfwriaeth ar gyfer busnesau. Pwysleisiodd Miss Daniel hefyd bod cyfle bob amser i adolygu'r ddeddfwriaeth yn ddiweddarach a bod cyflwyno adborth bob amser yn werthfawr.

5.11 Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith y gallai gwaith deddfwriaethol y Cynulliad fod o dan fygythiad pe byddai llawer o ddeddfwriaeth yn cael ei gytuno gan gymryd yn ganiataol ei bod yn bodloni ymrwymiadau Ewropeaidd ac nad oes diben ei thrafod mewn gwirionedd.

5.12 Roedd yr Aelodau'n teimlo bod angen ystyried y polisïau hynny ymlaen llaw, os oedd y Pwyllgor yn dymuno dylanwadu ar bolisïau, o ran rhoi cyngor i bwyllgorau pwnc. Cafwyd cydnabyddiaeth bod y dylanwad mwyaf yn dod gan y pwyllgorau pwnc, ond cytunwyd y gallai'r Pwyllgor Deddfau wneud argymhellion a thynnu sylw pwyllgorau pwnc yn uniongyrchol at y materion a fydd yn codi.

5.13 O ran y broses o graffu ar ddeddfwriaeth yr UE, disgrifiodd Mr Griffiths y system a ddefnyddir yn Senedd Iwerddon, gyda Phwyllgor Ewrop yn awgrymu pa ddarnau o ddeddfwriaeth y dylai pwyllgorau pwnc graffu arnynt. Yng Nghymru, caiff y rhestr ei rhannu rhwng y pwyllgorau, sydd wedyn yn penderfynu pa ddarnau i graffu arnynt. Gofynnodd Mr Griffiths i Fiss Daniel am ei barn ar ba system fyddai'n fwyaf effeithiol ar gyfer pennu pa ddarnau o ddeddfwriaeth y mae angen craffu arnynt fwyaf.

5.14 Nododd Miss Daniel bod llawer o ddeddfwriaeth yn deillio o'r UE, a bod blaenoriaethau gan bob un o bwyllgorau pwnc y Cynulliad. Felly, mae angen dull effeithiol o sefydlu pa ddarnau o ddeddfwriaeth yr UE y dylid craffu arnynt. Dywedodd Miss Daniel bod edrych ar y rhestrau maith yn un ffordd o wneud gwaith craffu a'i fod yn werthfawr, ond dywedodd bod anawsterau ymarferol o ran sefydlu is-bwyllgor ar gyfer pob pwyllgor pwnc i ystyried deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor llawn.

5.15 Hefyd, nododd Miss Daniel, pe byddai un pwyllgor yn gyfrifol, fel sy'n digwydd yn San Steffan, byddai angen gwneud gwaith manwl iawn, a byddai angen llawer iawn o gymorth. Byddai system o'r fath yn golygu newid yn y ffordd mae pwyllgorau'r Cynulliad yn gweithio ar hyn o bryd.

5.16 Soniodd y Cadeirydd am y posibilrwydd na fyddai strwythur pwyllgorau'r Cynulliad yn adlewyrchu strwythur y Cabinet ac y byddai pwyllgorau trawsbynciol yn bodoli wedi i'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth wahanu yn 2007. Mae'n bosibl y byddai angen ffurfio Pwyllgor Materion Ewropeaidd i ystyried deddfwriaeth yn fwy manwl, ac i edrych ar ffyrdd o ddylanwadu ar ddeddfwriaeth

5.17 Dywedodd Miss Daniel mai mater i Aelodau'r Cynulliad fyddai penderfynu ar strwythur pwyllgorau'r Cynulliad yn y dyfodol, ble mae materion Ewropeaidd yn cael eu hystyried a'r ffordd yr ymdrinnir â hwy.

5.18 Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben gan ddweud bod rhai arferion da wedi datblygu o ran y ffordd mae'r Cynulliad yn ystyried deddfwriaeth Ewropeaidd, ond y dylid parhau i ddatblygu arferion gorau, a'u gwneud mor gyffredin â phosibl.

## Deunyddiau eraill i'w hystyried:

- Papur Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ynghylch y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol ;

- Gwybodaeth briffio ar y mater gan Gynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau ;

- Trawsgrif o drafodaeth y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar y mater ;

- Papur Mr David Lambert ar y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol ;

- Papur gan y Cynghorydd Cyfreithiol ar Graffu ar ôl y Broses Ddeddfu;

5.18 Dywedodd Mr Griffiths ei fod wedi nodi pwyntiau ar yr hyn y gallai'r Cynulliad ei newid o ran gwaith craffu, a gofynnodd a oedd angen rhagor o wybodaeth ar y Pwyllgor.

5.19 Cafodd yr Aelodau wybod bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi codi nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol, ac y byddai'n trafod y mesur ymhellach fis Mai. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor Deddfau dderbyn copi o'r trawsgrif. Cam i'w gymryd: Y Clerc

### Papurau i'w nodi: Deunyddiau o drafodaethau blaenorol ar gyd-ddrafftio

## Camau i'w cymryd

5.19 Cytunwyd y byddai trawsgrif o drafodaethau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth mewn perthynas â'r Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol a gynhelir fis Mai, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gael. Cam i'w gymryd: Y Clerc

## Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 2 Mai 2006.